# MAURICE, HUGH (1775 - 1825), crwynwr, a chopïydd llawysgrifau

**Enw:** Hugh Maurice
**Dyddiad geni:** 1775
**Dyddiad marw:** 1825
**Priod:** Elizabeth Mary Louisa Maurice (née Jones)
**Plentyn:** Jane Maurice
**Plentyn:** Peter Maurice
**Plentyn:** Rowland Jones Maurice
**Rhiant:** Jane Maurice (née Jones)
**Rhiant:** Peter Maurice
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** crwynwr, a chopïydd llawysgrifau
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd yn Tyddyn Tudur, Llanfihangel Glyn Myfyr, sir Ddinbych, yn 1775 (bedyddiwyd 5 Mehefin), yn fab Peter Maurice a'i wraig Jane, chwaer Owen Jones ('Owain Myfyr'). Aeth yn ieuanc i Lundain at ei ewythr gan weithio yn Upper Thames Street, a chymryd rhan yn ei weithgareddau llenyddol a chymdeithasol, copïo llawysgrifau Cymraeg, a'i le yng Nghymdeithas y Gwyneddigion. Mabwysiadodd grefft crwynwr, ac ymsefydlodd yn Tooley Street. Priododd yn eglwys S. Olave, Tooley Street, Elizabeth Mary Louisa, merch Rowland Jones, Greenwich, genedigol o Lan-ym-Mawddwy (cynlywydd y Gwyneddigion), heb yn wybod i'w thad, ar ddydd cinio blynyddol y gymdeithas yn 1800. Y flwyddyn honno, ef oedd is-lywydd y gymdeithas, ac yr oedd y llywydd, Thomas Roberts, Llwynrhudol, a'r cofiadur, John Jones ('Jac Glan y Gors') yn gyfrannog o'r gyfrinach ac yn y briodas. Bu'n byw yn Greenwich, ac yn ddiweddarach ym Mhengwern, Ffestiniog, yn Nhremadog, ac yn y Plas Gwyn, Llanrug, lle y bu farw 18 Mawrth 1825; yn Llanfihangel Glyn Myfyr y claddwyd ef. Yr oedd yn ysgrifennwr destlus ac yn medru peintio â dyfrlliw. Y mae un o'i gopiau cynnar, barddoniaeth Gwalchmai (llawysgrif N.L.W. 5391, a ysgrifennwyd yn 1796), mewn ysgrifen 'farddol' gyda lluniau. Efe a ysgrifennodd lawysgrifau Llanstephan 161 ac N.L.W. 36, 47, 113, 119, 122, a 185. Erys nifer o'i lawysgrifau yng nghasgliad y Cymmrodorion yn yr Amgueddfa Brydeinig (Add. MSS. 14962-15089), ac yn 1849 cyflwynodd ei ferch, Jane Maurice, 49 o gyfrolau o ysgrifeniadau ganddo ef ac Owen Jones i'r Amgueddfa (llawysgrifau Caerhun, Add. MSS. 31062-31110). Cydnabuwyd ei gyfraniad i'r *The Myvyrian Archaiology of Wales* yn y rhagair, 1801. Efe oedd awdur y gerdd orau ar destun a osodwyd gan y Gwyneddigion yn 1804-5, ond gan iddo esgeuluso dadlennu ei enw o fewn yr amser penodedig, cyflwynwyd y fedal i David Owen ('Dewi Wyn o Eifion'), awdur y gerdd ail-orau. Ysgrifennodd ei fab hynaf, ROWLAND JONES MAURICE, gyfieithiad o Nennius yn llawysgrif N.L.W. 119, 4 Gorffennaf 1817. Addysgwyd ei ail fab PETER MAURICE (ganwyd Plas Gwyn 29 Mehefin 1803 a'i fedyddio yn Greenwich 1 Gorffennaf 1804) yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (ymaelododd 1822, a graddiodd yn B.A. 1826, M.A. 1829, B.D. 1837, a D.D. 1840), ac ordeiniwyd ef yn ddiacon (gyda theitl i guradiaeth Llanbedr a Chaerhun) 27 Ionawr, ac yn offeiriad 13 Hydref 1827. Bu'n gaplan New College, Rhydychen, 1828-58, a Choleg All Souls, 1837-58, ac yn ficer Yarnton, Rhydychen, o 1858 hyd ei farw 30 Mawrth 1878. Y mae'n adnabyddus ar gyfrif ei emynau, ei waith ar gerddoriaeth eglwysig, a'i bamffledi yn erbyn Pabyddiaeth. Cyfrannodd ei chwaer, JANE MAURICE (ganwyd ym Mhandy Tudur, 19 Hydref 1812), 20 emyn i'w *Choral Hymn Book*, 1861.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 230-2

cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru, papurau ordeinio Bangor

John Julian, *A dictionary of hymnology, setting forth the origin and history of Christian hymns of all ages and nations* (Llundain 1907)

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 44-5

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Y Cymmrodor*, 1951, 94-5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733198

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu